## Uned18

## Mewndethol

## Taflen Waith

**Cyflwyniad**

Fel arfer mae triniaethau mastitis a therapi buwch sych yn cael eu rhoi drwy'r deth. Mewn rhai achosion o fastitis, mae angen pigiadau antibiotig hefyd.

Mae'r sesiwn hon yn edrych ar y dull cywir o roi'r triniaethau yn fewndethol.

**Gellir trin gwartheg ar ddau wahanol gyfnod yn ystod y cyfnod llaetha, mewn tair ffordd:**

- Therapi Buwch yn Llaetha
- Therapi Buwch Hesb.

**Gwahanol ddulliau o roi'r driniaeth**

- Triniaeth Drwy'r Deth
- Triniaeth Parenterol (trwy bigiad)
- Therapi Drwy'r Geg.

**Beth yw'r dull cywir arllwysiad mewndethol?**

1. Triniaethau Antibiotigau
2. Therapi Buwch Hesb
3. Therapi Buwch Hesb Ddi-Antibiotig.

### 1. Triniaeth Antibiotig

- Cyn arllwysiad, dylid godro'r holl laeth o'r pwrs
- Dylid glanhau a diheintio'r deth/twll yn drylwyr â chlwt di-haint ag alcohol
- Dylid osgoi llygru twll y chwistrell
- Torrwch dop y cap
- Mewnosodwch yn ofalus (mae'r hyd yn dibynnu ar ddyluniad y tiwb)
- Arllwyswch (gwasgwch) holl gynnwys y chwistrell i mewn i'r deth
- Gwasgarwch yr hylif trwy rwbio'r deth yn dyner
- Dipiwch â thoddiant ïodin
- Monitrwch y fuwch ac ysgrifennwch y manylion yn y llyfr meddyginiaethau anifail
- Arsylwch y cyfnod diddyfnu llaeth.

### 2. Therapi Buwch Hesb

- Rhoi antibiotigau i wartheg fel maen nhw'n hesbio
- Rhyddhau gwrth-facteriol araf
- Mae antibiotigau'n lladd bacteria sy'n bresennol yn ystod y cyfnod hesbio
- Trin yr holl dethau
- Mae'n atal heintiau newydd rhag ymddangos yn ystod y cyfnod hesbio
- Y drefn yr un fath â'r driniaeth antibiotig.

### 3. Therapi Buwch Hesb Ddi-Antibiotigau (a elwir hefyd yn Seliwr Teth)

- Ffurfio rhwystr corfforol yn y deth
- Atal heintiau newydd drwy'r deth yn ystod y cyfnod hesbio
- Lleihau'r achosion mastitis isglinigol mewn gwartheg yn ystod lloea
- Mae'n glanhau a sychu tethau

- Glanhewch flaen y deth i gael gwared ag unrhyw groen heintiedig, baw neu dom/tail

- Diheintiwch y tethau pellaf cyn y tethau agosaf, i osgoi heintio'n ddamweiniol y tethau sydd wedi eu diheintio cyn hyn

- Mewnosodwch drwyn y chwistrell selio teth i bibell y deth a chwistrellu'r holl gynnwys

- Defnyddiwch un chwistrell gyflawn ar gyfer pob teth. **Peidiwch â rhwbio'r deth**. Rhaid iddi aros yn y deth i fod yn effeithiol

- Dylid trin y tethau agosaf yn gyntaf er mwyn minimeiddio heintio'r tethau sydd heb eu trin

- Ar ôl trin pob buwch, marciwch hi fel bod eraill yn gallu gweld ei bod wedi ei hesbio. Yna dipiwch bob teth â dip teth o ansawdd da.